CPS

Polisi ar gyfer Erlyn Achosion o Droseddau Casineb Homoffobig a Thrawsffobig

©Hawlfraint y Goron
Gwasanaeth Erlyn y Goron Tachwedd 2007

CPS

Polisi ar gyfer Erlyn Achosion o Droseddau Casineb Homoffobig a Thrawsffobig

DATGANIAD CYHOEDDUS

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Beth sydd yn y Polisi hwn?	5
Trosedd casineb homoffobig a thrawsffobig	8
Rôl y CPS	11
Y Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron	12
Plismona Troseddau Casineb	17
Erlyn achosion o droseddau casineb homoffobig neu drawsffobig	17
Beth sy'n digwydd os yw'r dioddefwr yn tynnu cefnogaeth yn ôl neu bellach ddim yn dymuno rhoi tystiolaeth?	21
Parhau ag achos lle mae'r dioddefwr wedi tynnu cefnogaeth i'r erlyniad yn ôl	23
Cefnogaeth i ddioddefwyr a thystion	25
Dedfrydu	36
Cofnodi troseddau casineb	38
Casgliad	49
Rhestr o Dermau a ddefnyddir yn y Datganiad Cyhoeddus	40

Cyflwyniad

1.1 Mae'r datganiad polisi hwn yn egluro sut rydym ni, Gwasanaeth Erlyn y Goron (y CPS), yn ymdrin ag achosion sy'n cynnwys troseddau casineb homoffobig neu drawsffobig. Hwn yw'r ail argraffiad ac mae'n adlewyrchu'r newidiadau mewn deddfwriaeth ac yn y gymdeithas ers cyhoeddi'r argraffiad cyntaf ym mis Tachwedd 2002.

1.2 Er dibenion y ddogfen hon, defnyddiwn yr ymadrodd "y cymunedau LGBT" i gynnwys cyfeiriadau at bob un sy'n ei ystyried ei hun yn rhywun lesbiaidd, hoyw, deurywiol a/neu'n berson traws. Mae'n bosib y bydd rhai o'r geiriau a'r ymadroddion a ddefnyddir yn y ddogfen hon yn anghyfarwydd i rai. Felly, ar ddiwedd y ddogfen mae rhestr o dermau lle'r ydym wedi diffinio rhai o'r geiriau a'r ymadroddion a ddefnyddir.

1.3 Ystyriwn droseddau homoffobig a thrawsffobig yn rhai arbennig o ddifrifol gan eu bod yn tanseilio hawl pobl i deimlo'n ddiogel ynghylch eu tueddfryd rhywiol ac i fod yn ddiogel yn y tueddfryd hwnnw, boed nhw'n lesbiaidd, hoyw, deurywiol neu heterorywiol, ac yn eu hunaniaeth o ran rhywedd, boed nhw'n ddynion neu'n fenywod a chan gynnwys dynion a menywod traws. Mae troseddau o'r fath yn seiliedig ar ragfarn, gwahaniaethu a chasineb ac nid oes lle iddynt mewn cymdeithas agored a democrataidd.

1.4 Ein dymuniad yw rhwystro pobl rhag cyflawni digwyddiadau homoffobig a thrawsffobig trwy gyhoeddi datganiad clir nad yw ymddygiad o'r fath yn dderbyniol a, lle bo'n briodol, y bydd yn cael ei erlyn yn effeithlon trwy'r llysoedd troseddol. Yn ogystal, rydym eisiau helpu i ddarparu amgylchedd lle bydd pobl a ddioddefodd yn sgil digwyddiadau o'r fath yn gallu bod â'r hyder i roi gwybod am yr hyn a ddigwyddodd a chefnogi unrhyw erlyniad sy'n dilyn trwy roi eu tystiolaeth yn y llys.

1.5 Mae gan bob un yr un hawl i gael ei warchod gan y gyfraith droseddol a chan yr asiantaethau cyfiawnder troseddol. Felly, rhaid i'n cymdeithas a'r CPS roi blaenoriaeth i atal trosedd homoffobig a thrawsffobig a dod â'r sawl sy'n cyflawni troseddau o'r fath gerbron eu gwell. Rhaid ymchwilio'n llawn i droseddau o'r fath fel y bydd unrhyw un sy'n dioddef yn eu sgil yn sylweddoli bod y gyfraith droseddol, a'r rhai sy'n gweithio i'w gorfodi, yn eu diogelu a'u cefnogi hwythau lawn cymaint ag y maent yn gwneud hynny i eraill. Rydym yn benderfynol o chwarae ein rhan trwy erlyn achosion yn effeithiol.

1.6 Wrth wneud hynny, rydym eisiau hyrwyddo gwell hyder yn y system cyfiawnder troseddol – sef nod allweddol i'r holl asiantaethau perthnasol. Cydnabyddwn y bydd anawsterau yn aml yn wynebu pobl a ddioddefodd yn sgil trosedd homoffobig a thrawsffobig wrth iddynt fynd ati i roi gwybod i'r heddlu am ddigwyddiad homoffobig neu drawsffobig ac wedyn wrth gefnogi unrhyw erlyniad yn y llys a all ddilyn yr hysbysu hwnnw. Yn y ddogfen hon, rydym yn esbonio'r mesurau y gellir eu cymryd i gynorthwyo'r rhai a allai orfod rhoi tystiolaeth yn y llys. Mae sicrhau hyder y bobl a ddioddefodd yn sgil trosedd homoffobig a thrawsffobig yn rhan hanfodol o ymagwedd y CPS wrth ymdrin yn effeithiol ag achosion sydd ag elfen homoffobig neu drawsffobig.

1.7 Nid y CPS yw'r unig asiantaeth sy'n ymdrin ag achosion gydag elfen homoffobig neu drawsffobig. Mae gan yr heddlu, y llysoedd troseddol, ynadon a barnwyr oll rannau i'w chwarae i hyrwyddo mwy o hyder yn y system cyfiawnder troseddol. Byddwn yn annog ein hasiantaethau partner i chwarae eu rhan hwythau er mwyn sicrhau, gyda ni, y bydd y broses cyfiawnder troseddol yn ei chyfanrwydd yn dod â'r rhai sy'n cyflawni troseddau homoffobig a thrawsffobig gerbron eu gwell.

1.8 Byddwn yn parhau i weithio a hyfforddi gyda phartneriaid cymunedol o'r cymunedau LGBT, yn lleol a chenedlaethol, i'n helpu i wella ein dealltwriaeth o droseddau homoffobig a

thrawsffobig a gwneud y penderfyniadau cywir ynghylch gwaith achosion.

1.9 Wrth ddrafftio'r polisi hwn buom yn ymgynghori ag aelodau o gymunedau LGBT a sefydliadau cymunedol ehangach sydd â gwybodaeth arbenigol ym meysydd lleihau trosedd a chefnogi dioddefwyr a thystion. Rydym wedi gwerthfawrogi'r holl sylwadau a gasglwyd yn fawr; serch hynny, cyfrifoldeb y CPS yn unig yw cynnwys y ddogfen hon.

Beth sydd yn y Polisi hwn?

2.1 Ni cheir diffiniad statudol o ddigwyddiad homoffobig neu drawsffobig. Fodd bynnag, wrth erlyn achosion o'r fath, ac i'n cynorthwyo wrth gymhwyso ein polisi ar ymdrin ag achosion ag elfen homoffobig neu drawsffobig, rydym wedi mabwysiadu'r diffiniad canlynol:

"Unrhyw ddigwyddiad, y canfyddir ei fod yn homoffobig neu drawsffobig gan y dioddefwr neu unrhyw berson arall."

2.2 Wrth fabwysiadu'r diffiniad hwn, mae'r CPS yn adeiladu ar yr ymdriniaeth a gafodd ei derbyn yn gyffredinol ar gyfer diffinio mathau eraill o ddigwyddiadau yn ymwneud â chasineb, megis digwyddiadau hiliol. Y mae ein diffiniad yn cynnwys, felly, y digwyddiadau hynny y mae naill ai'r dioddefwr neu'r tyst yn credu eu bod yn seiliedig ar homoffobia neu drawsffobia, boed rhywun arall (gan gynnwys y diffynnydd) dan yr argraff honno ai peidio neu p'run ai dyna'r achos ai peidio mewn gwirionedd. Yn ôl ein diffiniad, mae'r rhai sy'n dioddef yn sgil digwyddiadau homoffobig neu drawsffobig oherwydd y credir eu bod yn aelod o'r cymunedau LGBT (boed hynny'n gywir ai peidio) a'r rhai a ddaw'n ddioddefwyr yn sgil digwyddiadau homoffobig neu drawsffobig oherwydd iddynt amddiffyn, cefnogi neu warchod aelodau o'r cymunedau LGBT, yn dod o fewn y diffiniad hefyd.

Yn ogystal, mae ein diffiniad yn cynnwys digwyddiadau a ganfyddir yn homoffobig neu drawsffobig gan sawl sy'n cyflawni'r weithred yn unig.

2.3 Cydnabyddwn y gall rhai pobl gyflawni troseddau am fwy nag un rheswm. Gall troseddau o'r fath gael eu cymell gan homoffobia neu drawsffobia a hefyd gan gasineb ar sail hil, crefydd neu gred rhywun, ei oed, rhyw neu anabledd. Cyflawnir rhai troseddau homoffobig neu drawsffobig mewn sefyllfaoedd domestig, gan gynnwys rhwng oedolion, plant a phobl ifanc. Mae'r CPS wedi cyhoeddi neu'n bwriadu cyhoeddi ei bolisïau sy'n esbonio sut rydym yn ymdrin ag achosion lle bydd y materion hyn yn codi a sut y cymhwysir pob polisi perthnasol ym mhob achos priodol. Fe gewch gopïau o'r dogfennau perthnasol pan fyddant ar gael (wedi eu cymeradwyo) gan Gangen Cyfathrebu y CPS, Rose Court, 2 Southwark Bridge, Llundain SE1 9HS o swyddfeydd CPS lleol neu o'n gwefan: www.cps.gov.uk

2.4 Mae'r datganiad polisi hwn hefyd yn cydnabod fod yna bobl sy'n cael rhyw â phobl o'r un rhyw â nhw nad ydynt yn eu gweld eu hunain yn berson LGB. Nid yw'r ffaith hon yn rhwystro'r polisi hwn rhag bod yn gymwys iddynt hwythau, ar yr amod bod y digwyddiad y maent yn rhan ohono yn cael ei ganfod gan rywun yn un homoffobig neu drawsffobig.

2.5 Mae pob un sy'n dioddef yn sgil digwyddiadau homoffobig neu drawsffobig yn deilwng o gefnogaeth yr asiantaethau cyfiawnder troseddol fel y bydd digwyddiadau o'r fath yn cael eu dwyn i sylw'r heddlu; yn destun ymchwiliad priodol; a, lle bo'n briodol, yn cael eu herlyn yn effeithiol. Mae'r diffiniad a fabwysiadwyd gennym yn un eang: mae'n ymdrin â phob digwyddiad a ganfyddir yn homoffobig neu drawsffobig gan unrhyw un sy'n rhan ohonynt (gan gynnwys y sawl sy'n eu cyflawni) neu gan unrhyw un sy'n dyst iddynt.

2.6 Nid yw pob digwyddiad a ddaw i sylw'r heddlu yn drosedd, fodd bynnag, a hyd yn oed lle gellir profi bod y digwyddiad yn

un troseddol, efallai na fydd digon o dystiolaeth dderbyniadwy i'w rhoi gerbron llys i ddangos yr elfen o homoffobia neu drawsffobia a ddaw â'r digwyddiad y tu mewn i delerau'r polisi hwn.

2.7 Golyga hyn y gall fod yna rai digwyddiadau a fydd yn dod o fewn ein diffiniad ond na fyddant yn arwain at achos troseddol, neu, os byddant yn arwain at achos troseddol, lle na fydd hi'n bosib i'r erlyniad ddarparu tystiolaeth o'r elfen homoffobig neu drawsffobig i'r llys. Serch hynny, ble bydd tystiolaeth o'r fath yn dderbyniadwy, bydd y CPS yn rhoi gwybod i'r llys amdani.

2.8 Boed digwyddiadau a ganfyddir yn rhai homoffobig neu drawsffobig yn arwain at erlyniadau ai peidio, bydd y CPS yn trin dioddefwyr a thystion i ddigwyddiadau o'r fath yn unol â'r polisi hwn.

2.9 Cydnabyddwn y gall llawer o bobl LGBT fod â gwahanol bryderon ac y gallant wynebu gwahanol fathau a gwahanol ffurfiau ar wahaniaethu. Mewn llawer o sefydliadau esblygodd rhwystrau sy'n ei gwneud yn anos i rai pobl fyw a gweithio mewn amgylchedd lle maent yn teimlo'n ddiogel. Yn ychwanegol at homoffobia neu drawsffobia, gall y rhwystrau hynny fod yn rhai oherwydd hiliaeth sefydliadol, iaith, diwylliant, crefydd neu gred, cefndir ethnig neu genedlaethol, anabledd, rhyw, oedran, neu gallant fod yn rhai economaidd eu natur. Mae'r rhwystrau hyn yn effeithio ar aelodau unigol o'r cymunedau LGBT mewn gwahanol ffyrdd, fel y gall rhai pobl LGBT fod yn fwy cyndyn nag eraill o roi gwybod am drosedd a chefnogi erlyn y drwgweithredwyr. Gall y rhain gynnwys (ond heb eu cyfyngu i'r rhain yn unig) pobl dduon ac o leiafrifoedd ethnig, pobl anabl, pobl LGBT ieuangach neu hŷn neu bobl LGBT sy'n byw mewn ardaloedd gwledig. Cydnabyddwn hefyd y gall aelodau o'r cymunedau LGBT uniaethu gyda mwy nag un grŵp a thrwy hynny y gallant brofi gwahaniaethu o fwy nag un math.

2.10 Serch hynny, ym marn y CPS mae yna faterion cyffredin wrth wraidd y modd y dylid mynd ati i ystyried achosion sy'n cynnwys unrhyw un o'r grwpiau hyn o bobl. Nid yw hynny'n golygu na fydd materion unigol unrhyw ddioddefwyr neu dyst neilltuol yn cael eu hystyried yn ôl eu teilyngdod eu hunain, ond pwrpas y ddogfen hon yw rhoi arweiniad cyffredinol ynghylch y modd y mae'r CPS yn ymdrin ag achosion sy'n cynnwys elfen o homoffobia neu drawsffobia. Mae'r ddogfen yn ymdrin hefyd â'r hyn sydd, ym marn y CPS, yn bryderon cyffredin ynghylch y modd y bydd yr holl achosion o'r natur hwn yn cael eu herlyn drwy'r llysoedd troseddol.

Trosedd casineb homoffobig a thrawsfobig

3.1 Ym mis Ebrill 2005, daeth adran 146 Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 (CJA) i rym. Nid yw Adran 146 yn creu unrhyw droseddau newydd; mae'n gosod dyletswydd ar y llysoedd i gynyddu'r ddedfryd ar gyfer **unrhyw** drosedd a waethygir gan elyniaeth ar sail nifer o ffactorau gan gynnwys tueddfryd rhywiol (neu dueddfryd rhywiol tybiedig) y dioddefwr. Felly, pan fydd troseddwr wedi pledio'n euog neu wedi'i gael yn euog a'r llys wrthi'n penderfynu ar y ddedfryd briodol, rhaid iddo drin tystiolaeth am elyniaeth ar sail tueddfryd rhywiol (neu dueddfryd rhywiol tybiedig) fel rhywbeth sy'n gwneud y trosedd yn fwy difrifol. Rhaid i'r llys hefyd ddatgan y ffaith yn agored fel bod pawb yn gwybod bod y trosedd yn cael ei drin yn fwy difrifol oherwydd y dystiolaeth hon o elyniaeth ar sail tueddfryd rhywiol (neu dueddfryd rhywiol tybiedig).

3.2 Nid yw adran 146 yn gymwys, fodd bynnag, mewn achosion o drawsffobia lle bo'r elyniaeth yn seiliedig ar hunaniaeth o ran rhywedd neu hunaniaeth o ran rhywedd dybiedig y dioddefwr.

3.3 Yn ychwanegol, mae gwahaniaeth rhwng digwyddiad homoffobig a throsedd sy'n cynnwys gelyniaeth ar sail

homoffobia. Y mae adran 146 yn gymwys yn unig ar gyfer achosion troseddol ble gall yr erlyniad brofi, trwy dystiolaeth y gall y llys ei derbyn, fod y diffynnydd wedi arddangos gelyniaeth tuag at y dioddefwr oherwydd ei dueddfryd rhywiol (neu dueddfryd rhywiol tybiedig) neu fod y trosedd wedi'i gymell gan elyniaeth tuag at bersonau sydd o dueddfryd rhywiol neilltuol. Golyga hyn y bydd yna ddigwyddiadau a ganfyddir gan y dioddefwr, neu gan unrhyw un arall, yn rhai homoffobig na fyddant yn arwain yn y pen draw at sefyllfa lle bydd y llys yn trin y trosedd fel un a waethygir gan elyniaeth ar sail tueddfryd rhywiol.

3.4 Cafodd adran 146 ei chynllunio i sicrhau bod troseddau a waethygir gan elyniaeth ar sail tueddfryd rhywiol (neu dueddfryd rhywiol tybiedig) y dioddefwr yn cael eu trin â difrifoldeb gan yr heddlu, erlynwyr a'r llysoedd ac mae'n sicrhau bod troseddau o'r fath (a throseddau a waethygir gan elyniaeth ar sail anabledd) yn cael eu trin yn yr un ffordd â throseddau a waethygir gan elyniaeth hiliol neu grefyddol.

3.5 Felly, y mae bellach yn ddyletswydd ar y CPS i sicrhau, ble bynnag y bo tystiolaeth o'r fath elyniaeth, bod hyn yn cael ei ddwyn i sylw'r llys sy'n dedfrydu.

Pryd y bydd adran 146 CJA yn berthnasol?

3.6 Mae adran 146 yn berthnasol i droseddau a gyflawnir dan yr amgylchiadau hyn:

"Adeg cyflawni'r trosedd neu'n union cyn gwneud neu ar ôl gwneud hynny, bod y troseddwr yn arddangos gelyniaeth tuag at y sawl a ddioddefodd y trosedd a hynny ar sail tueddfryd rhywiol (neu dueddfryd rhywiol tybiedig) y dioddefwr",

NEU

"Bod y trosedd wedi'i gymell (yn llwyr neu'n rhannol) gan elyniaeth tuag at bersonau â thueddfryd rhywiol neilltuol".

3.7 Mae'n bwysig nodi mai dau ddewis ar wahân yw'r rhain. Felly, mewn achos lle gellir profi bod y troseddwr wedi arddangos gelyniaeth (ar ffurf geiriau llafar fel arfer) yna nid oes angen profi cymhelliad gelyniaethus yn ogystal, ac yn groes. Mae hi bob amser yn anodd profi cymhelliad ac mae'n debygol y bydd mwy o achosion adran 146 yn ymwneud â gweithredoedd gelyniaethus na chymhelliad gelyniaethus.

3.8 Serch hynny, fe fydd adran 146 yn berthnasol hyd yn oed os cafodd y digwyddiad ei annog gan fater nad yw'n ymwneud â thueddfryd rhywiol, ar yr amod bod y troseddwr wedi mynd ymlaen i arddangos gelyniaeth ar sail tueddfryd rhywiol (neu dueddfryd rhywiol tybiedig) y dioddefwr.

Profi bod trosedd yn un wedi'i waethygu gan elyniaeth ar sail tueddfryd rhywiol (neu dueddfryd rhywiol tybiedig)

3.9 Ni fydd pob digwyddiad a ganfyddir yn drosedd a gymhellir gan elyniaeth tuag at dueddfryd rhywiol (neu dueddfryd rhywiol tybiedig) y dioddefwr, gan y dioddefwr neu gan ryw berson arall, yn dod dan adran 146. Er mwyn i adran 146 fod yn berthnasol, rhaid i'r erlyniad brofi'n gyntaf bod y troseddwr wedi cyflawni trosedd ac yna allu profi bod y trosedd wedi'i waethygu gan elyniaeth ar sail tueddfryd rhywiol (neu dueddfryd rhywiol tybiedig) y dioddefwr. Er mwyn ein helpu i benderfynu a yw digwyddiad y bydd yr heddlu'n cael gwybod amdano yn drosedd, ac a oes digon o dystiolaeth i erlyn yr achos, byddwn yn defnyddio'r Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron. Rydym yn esbonio'r Côd yn nes ymlaen yn y ddogfen hon.

Rôl y CPS

4.1 Cyfrifoldeb yr heddlu yw ymchwilio i honiadau o droseddu a chasglu tystiolaeth am yr hyn a ddigwyddodd.

4.2 Yn dilyn gweithredu Cyhuddo Statudol, gwaith y CPS bellach yw penderfynu ar y cyhuddiad ym mhob achos heblaw'r rhai lleiaf a'r rhai arferol. Bydd ein herlynwyr yn gweithio gyda'r heddlu i sicrhau y bydd achosion troseddau homoffobig neu drawsffobig yn cael eu hadnabod cyn gynted â phosib fel y gellir gwneud y penderfyniad cyhuddo cywir.

4.3 Mae'r system cyfiawnder troseddol yng Nghymru a Lloegr yn seiliedig ar fod tystion yn dod i'r llys i roi tystiolaeth am yr hyn a ddigwyddodd. Fel arfer, bydd tystion yn rhoi tystiolaeth mewn llys agored lle bydd aelodau o'r cyhoedd a'r wasg yn bresennol hefyd. Mae'r diffynnydd yn bresennol bron bob amser hefyd. Mae rhoi gwybod am drosedd a rhoi tystiolaeth yn ddyletswydd gyhoeddus ac mae parodrwydd y tystion i ddod ymlaen yn allweddol i unrhyw erlyniad llwyddiannus.

4.4 Gwyddom fod pobl a ddioddefodd yn sgil digwyddiadau homoffobig neu drawsffobig weithiau yn amharod i roi gwybod am y digwyddiad neu i roi tystiolaeth os bydd y sawl a gyflawnodd y trosedd yn cael ei erlyn, oherwydd ei bod yn bosib y bydd eu tueddfryd rhywiol neu eu hunaniaeth draws yn cael ei datgelu ("*outed*") neu y bydd yn dod yn wybyddus neu'n fwy gwybyddus nag y byddai'r person yn dymuno. Cydnabyddwn bryderon aelodau'r cymunedau LGBT ynghylch hyn a byddwn yn trin pob dioddefwr a thyst gyda pharch ac urddas. Mae'n bwysig i ni oll bod y rhai sy'n dioddef yn sgil digwyddiadau homoffobig a thrawsffobig yn eu dwyn i sylw'r heddlu ac yn dod i roi tystiolaeth yn y llys pan fydd erlyniad yn dilyn: gall adrodd yr hanes yn y llys wneud gwahaniaeth, ond ni allwn warantu y ceir y diffynnydd yn euog. Fe wnawn ni bopeth o fewn ein gallu i'w gwneud hi mor hawdd â phosib

rhoi tystiolaeth yn y llys gan gynnwys, yn benodol, defnyddio darpariaethau adran 46 Deddf Cyfiawnder i'r Ifanc a Thystiolaeth Droseddol 1999 sy'n caniatáu cyfyngiadau ar ohebu o ran datgelu pwy yw'r dioddefwr dan rai amgylchiadau (gweler adrannau 10.17 – 10.21 y polisi hwn).

Y Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron

5.1 Mae'r ffordd y byddwn yn llunio ein penderfyniad ynghylch erlyn ai peidio yn cael ei disgrifio yn y Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron. Cyhoeddir y ddogfen hon gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus, sef pennaeth y CPS. Mae'r Côd yn cael ei ddiweddaru'n gyson er mwyn adlewyrchu'r arfer cyfredol. Mae'n ddogfen gyhoeddus. Byddwn yn arolygu'r achosion a gyfeirir atom yn unol â'r ddau gam a ddisgrifir yn y Côd. Yn yr ychydig achosion lle bydd yr heddlu eisoes wedi cyhuddo diffynnydd, rhaid i ni benderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r erlyniad ai peidio, gan adolygu'r achos yn unol â'r Côd. Yn y ddwy sefyllfa, ein cyfrifoldeb ni yw penderfynu a ddylid erlyn, nid cyfrifoldeb y dioddefwr na'r heddlu.

Y cam cyntaf — y cam tystiolaethol

5.2 Yn gyntaf, rhaid i Erlynwyr y Goron fod yn fodlon bod digon o dystiolaeth i roi "gobaith realistig o euogfarn yn erbyn pob diffynnydd ar bob cyhuddiad". Mae hyn yn golygu y byddai rheithgor neu fainc o ynadon, dan gyfarwyddyd priodol yn unol â'r gyfraith, yn fwy tebygol na pheidio o gael y diffynnydd yn euog o'r cyhuddiad honedig.

5.3 Er mwyn sicrhau euogfarn mewn llys troseddol, rhaid i ni brofi'r achos fel bod y llys yn sicr o'r euogrwydd.

5.4 Felly, mae'r prawf tystiolaethol a ddefnyddiwn yn wahanol i'r prawf a ddefnyddir gan y llys cyn y gall ddyfarnu diffynnydd yn euog. Nid yw'r ffaith fod yr achos yn pasio'r prawf tystiolaethol a nodir yn y Côd yn golygu o'r herwydd y bydd yr achos yn arwain at ddyfarniad euog. Gall llawer o bethau ddigwydd rhwng ein penderfyniad i erlyn achos a dyfarniad y llys: er enghraifft, efallai na fydd tystion yn dod i'r llys i roi tystiolaeth; efallai y bydd tystion yn rhoi tystiolaeth wahanol yn y llys i'r hyn a roesant i'r heddlu; neu gall y diffynnydd roi tystiolaeth a dweud fersiwn wahanol o'r stori gan fwrw amheuaeth ar ba mor wir yw stori'r dioddefwr. Mater i'r llys yw penderfynu a yw diffynnydd yn euog ar sail y dystiolaeth a glywir neu a ddarllenir ganddo. Dyna pam na fydd yr holl achosion a erlynir yn arwain at ddyfarniad euog.

5.5 Os na fydd yr achos yn pasio'r cam cyntaf ar sail cryfder y dystiolaeth, rhaid iddo beidio â mynd ymlaen, ni waeth pa mor bwysig neu ddifrifol ydyw. Y rheswm am hyn yw ein bod wedi dod i'r casgliad nad yw'r llys yn debygol o gael y diffynnydd yn euog o'r trosedd honedig ar sail y dystiolaeth sydd gennym. Mewn achosion o'r fath, mae'n anghywir rhoi'r diffynnydd drwy'r broses cyfiawnder troseddol ac mae'n anghywir codi disgwyliadau dioddefwyr a thystion pan nad ydym o'r farn ei bod hi'n debygol y ceir euogfarn.

Yr ail gam — cam budd y cyhoedd

5.6 Os yw'r achos yn pasio'r cam tystiolaethol, rhaid i Erlynwyr y Goron wedyn benderfynu a oes angen erlyn er budd y cyhoedd. Fel arfer fe eir ati i erlyn "oni bai fod ffactorau budd y cyhoedd yn tueddu yn erbyn erlyn sy'n amlwg yn fwy na'r rhai sy'n tueddu o blaid".

5.7 Wrth ystyried prawf budd y cyhoedd, un o'r ffactorau y dylai Erlynwyr y Goron bob amser ei ystyried yw "canlyniadau'r penderfyniad i erlyn ai peidio o ran y dioddefwr; ac unrhyw

safbwyntiau a fynegir gan y dioddefwr neu deulu'r dioddefwr". Byddwn bob amser yn meddwl yn ofalus iawn am fuddiannau'r dioddefwr wrth benderfynu lle y mae budd y cyhoedd. Ond byddwn yn erlyn achosion ar ran y cyhoedd yn gyffredinol ac nid er budd unrhyw unigolyn neilltuol. Gall fod anawsterau wrth geisio taro ar y cydbwysedd cywir yn hyn o beth. Mae barn a buddiannau'r dioddefwyr yn bwysig, ond ni ellir rhoi'r gair olaf iddynt ynghylch erlyniad gan y CPS.

5.8 Ystyriwn unrhyw drosedd a ysgogir gan elyniaeth tuag at y dioddefwr oherwydd tueddfryd rhywiol y dioddefwr, ei hunaniaeth o ran rhywedd, ei dueddfryd rhywiol canfyddedig neu hunaniaeth o ran rhywedd ganfyddedig yn fater mwy difrifol. O ganlyniad, gydag achosion troseddau casineb homoffobig a thrawsffobig a gyfeirir atom, fe fydd budd y cyhoedd bron bob amser o blaid erlyn.

5.9 Dyma rai o'r ffactorau budd y cyhoedd y byddwn yn eu hystyried:

- difrifoldeb y trosedd;
- anafiadau'r dioddefwr – corfforol a/neu seicolegol;
- a wnaeth y diffynnydd ddefnyddio arf;
- a yw'r diffynnydd wedi gwneud unrhyw fygythiadau cyn neu ar ôl yr ymosodiad;
- a wnaeth y diffynnydd gynllunio'r ymosodiad;
- y siawns y bydd y diffynnydd yn troseddu eto;
- y bygythiad parhaus i iechyd a diogelwch y dioddefwr neu unrhyw un arall sy'n rhan o'r mater, neu a allai ddod yn rhan ohono;
- perthynas y diffynnydd â'r dioddefwr; a
- chefndir troseddu y diffynnydd, yn enwedig unrhyw droseddau blaenorol yn erbyn pobl agored i niwed.

5.10 Mae'r Côd yn ddogfen gyhoeddus. Fe gewch gopïau o Gangen Cyfathrebu'r CPS, Rose Court, 2 Southwark Bridge, Llundain SE1 9HS 7EX neu o swyddfeydd lleol y CPS, neu o'n gwefan: http://www.cps.gov.uk/victims_witnesses/code.html

Asesu achosion heb dystiolaeth y dioddefwr

5.11 Mewn llawer o ddigwyddiadau homoffobig neu drawsffobig, y dioddefwr yw'r unig dyst yn aml. Lle bo digon o dystiolaeth a bod y digwyddiad yn arwain at gyhuddiad ac erlyniad, fel arfer fe fydd angen i'r dioddefwr roi tystiolaeth yn y llys oni bai fod y diffynnydd yn pledio'n euog neu fod tystiolaeth ategol gref. Gwyddom y bydd rhai dioddefwyr troseddau homoffobig a thrawsffobig yn ei chael hi'n anodd iawn gwneud hyn. Os bydd angen i'r dioddefwr roi tystiolaeth, byddwn yn ystyried yr holl ddewisiadau sydd ar gael i ni i helpu'r dioddefwr roi ei dystiolaeth orau yn y llys. Rydym wedi nodi'r dewisiadau hynny yn adrannau 10.15 – 10.32 y polisi hwn.

5.12 Fodd bynnag, ni fyddwn yn awtomatig yn tybio mai gofyn i'r dioddefwr roi tystiolaeth yn y llys yw'r unig ffordd o brofi'r achos. Fe fyddwn ni hefyd yn ystyried pa dystiolaeth arall a allai fod ar gael fel dewis arall yn lle tystiolaeth y dioddefwr. Mewn achosion o droseddau homoffobig neu drawsffobig – fel ym mhob achos – rhaid i'r erlynydd sy'n adolygu'r achos gymhwyso'r Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron. Os oes digon o dystiolaeth i fwrw ymlaen heb dystiolaeth y dioddefwr, yn amodol ar y cam budd y cyhoedd, mae'n bosib y gall yr achos ddal i fynd yn ei flaen. Yn adrannau 8 a 9 y polisi hwn rydym wedi nodi sut y gellir gwneud hynny.

Mân droseddu gan ddioddefwr trosedd mwy difrifol, neu dyst i hynny

5.13 Mae'r CPS yn cydnabod y gall pobl LGBT fod yn arbennig o gyndyn o roi gwybod am ddigwyddiadau homoffobig neu drawsffobig a gyflawnir yn eu herbyn neu yn erbyn pobl eraill ac y byddant hwythau'n dyst iddynt. Mae'n bosib y byddant yn ofni y gallant ddod yn destun ymchwiliad gan yr heddlu ac erlyniad posib, oherwydd ble'r oeddynt; oherwydd y cwmni oedd ganddynt; neu oherwydd yr hyn yr oeddynt yn ei

wneud, pan ddigwyddodd y digwyddiad. Er enghraifft, efallai eu bod yn cyflawni mân drosedd rhywiol, fel sydd weithiau'n digwydd yn achos *cruising* neu *cottaging*, mewn ardal sy'n adnabyddus am y fath ymddygiad rhywiol. Gallant hefyd ddod yn ddioddefwr trosedd neu'n dyst i drosedd am y rheswm syml eu bod yn y fath leoedd lle bydd eraill yn credu eu bod yn ymwneud â'r fath ymddygiad rhywiol.

5.14 Beth bynnag fo'r rheswm, mae yna lawer o aelodau o'r cymunedau LGBT sy'n ddioddefwyr, neu'n dystion, i ddigwyddiadau homoffobig neu drawsffobig nad ydynt yn barod i ddod ymlaen at yr heddlu am eu bod yn ofni y byddant yn destun ymchwiliad am eu hymddygiad eu hunain.

5.15 Mae'r CPS wedi ymrwymo i chwarae ei ran yn gwarchod holl aelodau cymdeithas trwy ddefnyddio'r broses cyfiawnder troseddol yn briodol. Er na all y CPS warantu na fydd pobl sy'n cyflawni mân droseddau yn cael eu herlyn, wrth benderfynu a ddylid erlyn ai peidio byddwn yn ystyried troseddau o'r fath yng nghyd-destun y pethau eraill a ddigwyddodd.

5.16 Ystyrir pob achos yn ôl ei deilyngdod. Fodd bynnag, lle bo person a gyflawnodd fân drosedd yn dod yn ddioddefwr, neu'n dyst, i drosedd mwy difrifol, y mae'n iawn, fel mater o bolisi cyhoeddus, bod y trosedd mwy difrifol yn destun ymchwiliad a, lle bo'n briodol, yn destun erlyniad, hyd yn oed os bydd hyn yn golygu nad erlynir y mân droseddu gan y dioddefwr neu'r tyst.

Plismona Troseddau Casineb

6.1 Mae Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO) yn cynrychioli'r 44 gwasanaeth heddlu yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ac, ym mis Mawrth 2005, cyhoeddodd lawlyfr arweiniad tactegol i'r holl wasanaethau, yn ymwneud â Throsedd Casineb a Digwyddiadau Casineb.

6.2 Diffinnir Digwyddiad Casineb fel hyn:

"Unrhyw ddigwyddiad, boed drosedd neu beidio, a ganfyddir gan y dioddefwr neu unrhyw berson arall fel un a gymhellir gan ragfarn neu gasineb."

6.3 Dyma ddiffiniad Trosedd Casineb:

"*Unrhyw ddigwyddiad, sy'n drosedd, a ganfyddir gan y dioddefwr neu unrhyw berson arall, fel un a gymhellir gan ragfarn neu gasineb."*

6.4 Diffinnir Digwyddiad Homoffobig neu Drawsffobig fel hyn:

"*Unrhyw ddigwyddiad, y canfyddir ei fod yn homoffobig neu drawsffobig gan y dioddefwr neu unrhyw berson arall."*

6.5 Mae'r llawlyfr yn pwysleisio pa mor bwysig yw hi fod ymchwilwyr yr heddlu yn hysbysu'r erlynwyr bod trosedd wedi cael ei gofnodi fel digwyddiad homoffobig neu drawsffobig ac a yw'r dioddefw(y)r neu dyst allweddol yn perthyn i'r gymuned LGBT.

Erlyn achosion o droseddau homoffobig neu drawsffobig

7.1 Mae'n bosib na fydd hi bob tro'n bosib i ni brofi bod trosedd sydd yng ngolwg y dioddefwr neu ryw berson arall yn drosedd homoffobig neu drawsffobig yn drosedd casineb yn wyneb y

gyfraith. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod unrhyw drosedd a ystyrir yn drosedd homoffobig neu drawsffobig yn cael ei gofnodi felly gan yr heddlu a'r CPS gan y bydd hyn yn hysbysu'r modd y byddwn yn ymdrin â'r achos. Dylai'r heddlu roi gwybod i ni am bob digwyddiad o'r fath a byddwn ninnau wedyn yn monitro'r ffordd y byddwn yn ymdrin â nhw.

7.2 Byddwn yn mabwysiadu ymagwedd o fynd ati'n weithredol i geisio rhagor o wybodaeth gan yr heddlu i'n helpu i benderfynu a ellir mynd ati'n briodol i erlyn achos fel trosedd homoffobig neu drawsffobig. Mewn rhai achosion, gallwn gynghori'r heddlu i ddilyn trywyddau ymholi eraill posib. Gallai hyn gynnwys edrych ar gofnod o ddigwyddiadau blaenorol ar gyfer yr un dioddefwr, neu ar gyfer yr unigolyn sydd dan amheuaeth, neu'r un lleoliad. Ym mhob achos, dylai erlynwyr gyd-drafod yn uniongyrchol â'r swyddog sydd yng ngofal yr achos er mwyn gwneud yn siwr bod yr holl dystiolaeth sydd ar gael wedi cael ei chasglu a'i hanfon at y CPS fel y gallwn adolygu'r achos yn llawn. Gall hyn fod yn arbennig o bwysig os yw'r sefyllfa yn cynnwys fictimeiddio dro ar ôl tro.

7.3 Rydym yn ceisio llunio'r achosion cryfaf posib i'w rhoi gerbron llys. Os ydym yn fodlon bod digon o dystiolaeth i brofi bod y trosedd yn un gwaethygol yn unol ag adran 146, fe fyddwn yn egluro wrth yr amddiffyniad a'r llys ein bod yn bwriadu cyflwyno tystiolaeth i'r perwyl hwn gerbron y llys er dibenion dedfrydu. Mewn rhai achosion – yn enwedig lle gwadir hynny – mae'n bosib y bydd angen galw tystion (a all gynnwys y dioddefwr) i roi tystiolaeth i brofi nodwedd(ion) gwaethygol y trosedd.

Dewis cyhuddiad

7.4 Dylai'r cyhuddiadau y penderfynwn eu dewis mewn unrhyw erlyniad bob amser adlewyrchu difrifoldeb yr hyn a ddigwyddodd, unrhyw elfen o ragfwriad neu barhad yn

ymddygiad y diffynnydd, bwriad profadwy y diffynnydd a difrifoldeb unrhyw anaf a ddioddefodd y dioddefwr. Rhaid i'r cyhuddiadau ein cynorthwyo i gyflwyno'r achos yn eglur a syml a rhaid iddynt roi'r grym i'r llys osod dedfryd addas.[1]

7.5 Mae'r CPS a'r heddlu wedi cytuno ar "safonau cyhuddo" ar gyfer rhai mathau o droseddau gan gynnwys ymosodiadau. Canllawiau yw'r rhain sy'n ein helpu i wneud penderfyniad cyson ynghylch y cyhuddiadau cywir. Mae enghreifftiau o safonau cyhuddo i'w gweld yn: http://www.cps.gov.uk/legal/section5/chapter_c.html

7.6 Os yw achos yn cael ei erlyn fel trosedd homoffobig, ni fydd y cyhuddiad ei hun yn adlewyrchu'r ffaith fod y trosedd yn drosedd homoffobig. Y rheswm am hyn yw nad yw adran 146 Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 yn creu unrhyw drosedd penodol ond yn hytrach ei bod yn gosod dyletswydd ar lysoedd i gynyddu'r ddedfryd ar gyfer troseddau a waethygir gan elyniaeth ar sail tueddiad rhywiol (neu dueddiad rhywiol tybiedig) y dioddefwr. Nid oes yn rhaid i ni brofi'r ffactor gwaethygol er mwyn i lys gael y diffynnydd yn euog o'r trosedd yn y cyhuddiad (er enghraifft, ymosodiad neu ddifrod troseddol). Fodd bynnag, y mae'n rhaid i ni brofi'r ffactor gwaethygol er mwyn sicrhau y bydd y trosedd yn cael ei drin yn fwy difrifol gan y llys dedfrydu dan adran 146 y Ddeddf.

7.7 Er nad oes gan y llys bŵer statudol, y mae ganddo bŵer cyffredinol a disgresiwn i gynyddu dedfrydau a waethygir gan elyniaeth drawsffobig.

---

1 Mae Addewid yr Erlynwyr: "Rhoi ystyriaeth i'r effaith ar y dioddefwr neu'r teulu wrth wneud penderfyniad cyhuddo" a'r Côd Ymarfer i Ddioddefwyr Troseddau, adran 7.2 yn cyfeirio at rwymedigaeth y CPS i sicrhau yr hysbysir dioddefwyr o benderfyniadau cyhuddo a wneir gan y CPS.

Mechnïaeth

7.8 Ar ôl i berson gael ei gyhuddo o gyflawni trosedd, bydd yr heddlu, mewn ymgynghoriad â'r erlynydd, yn penderfynu a fyddant yn rhyddhau'r person ar fechnïaeth, gyda neu heb amodau, i fynychu'r gwrandawiad llys nesaf sydd ar gael (fel arfer o fewn dau i bum niwrnod ar ôl y cyhuddo), neu'n cadw'r person yn y ddalfa i ymddangos gerbron y llys ynadon y diwrnod hwnnw neu'r diwrnod canlynol. Unwaith y bydd y sawl a gyhuddir yn ymddangos gerbron llys, bydd yr ynadon yn penderfynu ynghylch mechnïaeth ar ôl clywed gan yr erlyniad a'r amddiffyniad. Gallwn apelio, dan amgylchiadau neilltuol, yn erbyn penderfyniad i ganiatáu mechnïaeth.

7.9 Gall yr amser ar ôl i droseddwr gael ei gyhuddo o gyflawni trosedd achosi pryder i'r dioddefwr a gall dioddefwr trosedd casineb deimlo'n arbennig o agored i niwed. Er mwyn diogelu dioddefwyr a thystion rhag perygl bygythiadau neu droseddau tebyg eto, gallwn ofyn i'r llys osod amodau ar y fechnïaeth neu gallwn ofyn am i'r diffynnydd gael ei gadw yn y ddalfa. Er mwyn i'r llys wrthod mechnïaeth, neu osod amodau ar y fechnïaeth, rhaid i ni allu dangos bod un o'r eithriadau i roi mechnïaeth ddiamod yn berthnasol. Byddai enghreifftiau o amodau o'r fath yn seiliedig ar seiliau rhesymol dros gredu na fyddai'r person yn mynychu'r llys, y byddai'n cyflawni troseddau neu'n rhwystro cwrs cyfiawnder, o bosib trwy godi braw ar dystion.

7.10 Ymhlith yr amodau y gall y llys eu gosod y mae rheidrwydd i beidio â mynd at unrhyw berson a enwir neu i gadw draw o ardal benodol. Wrth wneud penderfyniadau ynghylch a ddylid gwrthwynebu mechnïaeth, byddwn yn ystyried y wybodaeth a ddarparwyd i ni gan yr heddlu ynghylch ofnau dioddefwr neu dyst am aflonyddu neu droseddu pellach.

7.11 Byddwn yn gweithio gyda'r heddlu a'r llysoedd i wneud yn siwr bod y dioddefwr neu'r tyst yn cael gwybod beth sy'n digwydd, naill ai gan yr heddlu neu gennym ni, ac yn cael gwybod am unrhyw newid yn yr amodau mechnïaeth neu statws cystodaeth y sawl a gyhuddir. Bydd Unedau Gofal Tystion, a gynhelir gan yr heddlu a'r CPS, yn cynnig cymorth a gwybodaeth i ddioddefwyr a thystion a bydd Swyddog Gofal Tystion yn cadw mewn cysylltiad gyda'r dioddefwr neu'r tystion er mwyn iddynt gael gwybod am unrhyw newidiadau. Rydym yn disgrifio ein hymrwymiadau i dystion a dioddefwyr yn adran 10 y polisi hwn.

Beth sy'n digwydd os yw'r dioddefwr yn tynnu cefnogaeth yn ôl neu bellach ddim yn dymuno rhoi tystiolaeth?

8.1 Weithiau, bydd dioddefwr yn gofyn i'r heddlu beidio â bwrw ymlaen ymhellach gyda'r achos, neu'n gofyn am gael tynnu eu cwyn yn ôl. Nid yw hyn o anghenraid yn golygu y bydd yr achos yn cael ei atal yn awtomatig. Fel rheol gyffredinol, byddwn yn erlyn yr holl achosion lle mae digon o dystiolaeth a lle nad oes ffactorau sy'n ein rhwystro rhag gwneud hynny. Os yw'r dioddefwr wedi penderfynu tynnu ei gefnogaeth i'r erlyniad yn ôl, mae'n rhaid i ni ddarganfod pam. Gall hyn olygu oedi'r gwrandawiad llys er mwyn ymchwilio i'r ffeithiau a phenderfynu ar y trywydd gorau o hyn ymlaen.

8.2 Byddwn yn cymryd y camau canlynol:

- byddwn yn sicrhau y bydd erlynydd profiadol yn goruchwylio'r achos;
- os bydd y dioddefwr yn penderfynu tynnu ei gefnogaeth yn ôl, byddwn yn gofyn i'r heddlu gymryd datganiad ysgrifenedig gan y dioddefwr yn esbonio'r rhesymau dros

dynnu'r gefnogaeth yn ôl, yn cadarnhau bod eu cwyn wreiddiol yn wir ac yn nodi a roddwyd unrhyw bwysau ar y dioddefwr i dynnu'r gefnogaeth yn ôl; a

- byddwn yn gofyn i'r heddlu roi eu barn ynghylch y dystiolaeth yn yr achos a sut y gallai'r dioddefwr ymateb, yn eu barn hwy, petaent yn cael eu gorfodi i fynychu'r llys;
- lle bo'n briodol, byddwn yn gofyn am gyngor gan swyddog cyswllt LGBT yr heddlu a/neu Gydgysylltydd Trosedd Homoffobig y CPS[2].

8.3 Os yw datganiad y dioddefwr, ar ôl tynnu eu cwyn yn ôl, yn wahanol i'r datganiad blaenorol, byddwn yn disgwyl i'r heddlu ofyn i'r dioddefwr esbonio pam y bu newid.

8.4 Os bydd y dioddefwr yn cadarnhau bod eu cwyn yn wir ond ddim eisiau rhoi tystiolaeth yn y llys, byddwn yn ystyried yn gyntaf a yw hi'n bosib parhau â'r erlyniad heb dystiolaeth y dioddefwr (y cam tystiolaethol) ac yna, os yw hynny'n bosib, a ddylem ni barhau â'r achos heb gefnogaeth y dioddefwr/yn groes i ddymuniadau'r dioddefwr (cam budd y cyhoedd).

8.5 Fe fydd ar yr erlynydd eisiau gwybod y rhesymau pam nad yw'r dioddefwr yn dymuno rhoi tystiolaeth erbyn hyn. Mewn achosion o droseddau homoffobig neu drawsffobig, gall hyn fod oherwydd bod y dioddefwr yn byw mewn man lle maent yn teimlo wedi'u hynysu neu'n arbennig o agored i niwed (a chydnabyddwn y gall teimlo'n ynysig neu'n agored i niwed fod wedi rhwystro neu achosi oedi cyn i'r dioddefwr roi gwybod am y digwyddiad yn y lle cyntaf), lle gallai cefnogi'r erlyniad osod y dioddefwr mewn perygl o niwed pellach, mewn achosion trais yn y cartref neu amgylchiadau lle bo'r dioddefwr yn ofni canlyniadau eraill petai'n rhoi cefnogaeth

[2]Mae manylion y Cydgysylltydd Trosedd Homoffobig ar gyfer eich Rhanbarth i'w cael gan yr Uned Cydraddoldeb ac Amrywiaeth; Ffôn: 020 7796 8790.

i'r erlyniad. Mewn achosion o'r fath, rhaid i'r erlynydd roi ystyriaeth i unrhyw fesurau arbennig neu gefnogaeth arall sydd ar gael i'r dioddefwr a allai ei helpu, yn rhannol o leiaf, i oresgyn ei bryderon.[3]

8.6 Os byddwn yn amau bod pwysau wedi'i roi ar y dioddefwr neu y codwyd ofn ar y dioddefwr er mwyn iddo/iddi dynnu eu cwyn yn ôl, byddwn yn gofyn i'r heddlu ymchwilio ymhellach. Mae'n bosib y bydd yr ymchwiliad yn datgelu troseddau newydd, er enghraifft, aflonyddu neu ddychryn tystion, neu fod amodau mechnïaeth wedi'u torri. Os bydd angen, byddwn yn gofyn i'r llys oedi unrhyw wrandawiad fel y gellir cynnal ymchwiliad trwyadl cyn ein bod yn penderfynu ynghylch dyfodol yr achos. Os yw'r rheswm y penderfynodd y dioddefwr neu'r tyst dynnu eu cwyn yn ôl yn seiliedig ar ofn neu ddychryn, bydd yr erlynydd yn ystyried y dystiolaeth honno a phenderfynu a ddylid dwyn cyhuddiadau pellach, er enghraifft dychryn tystion.

8.7 Byddwn yn archwilio'r holl ddewisiadau hyn yn llawn, cyn penderfynu bwrw ymlaen gydag erlyniad ai peidio. Bydd diogelwch y dioddefwr neu unrhyw berson arall a allai fod yn agored i niwed, yn un o'r prif ystyriaethau wrth i ni lunio penderfyniad.

Parhau ag achos lle mae'r dioddefwr wedi tynnu cefnogaeth i'r erlyniad yn ôl

9.1 Yn gyffredinol, po fwyaf difrifol yw'r trosedd (oherwydd, er enghraifft, lefel y trais a ddefnyddiwyd neu'r bygythiad gwirioneddol a pharhaus i'r dioddefwr neu eraill) y mwyaf

[3]Addewid yr Erlynwyr: "Mynd i'r afael ag anghenion penodol dioddefwr a, lle bo cyfiawnhad dros hynny, ceisio sicrhau na ddatgelir pwy ydynt trwy wneud cais priodol i'r llys" ac mae'r Côd Ymarfer i Ddioddefwyr Troseddau, adran 7.8 yn datgan bod raid i erlynwyr y CPS ystyried ceisiadau am fesurau arbennig ar gyfer dioddefwyr a allai fod yn agored i niwed neu i gael eu dychryn.

tebygol ydym ni o erlyn er budd y cyhoedd, hyd yn oed os yw'r dioddefwr yn dweud nad yw'n dymuno i ni wneud hynny.

9.2 Mewn rhai achosion, os oes gennym ddigon o dystiolaeth arall, gallwn barhau heb ddibynnu ar dystiolaeth y dioddefwr o gwbl.

9.3 Os byddwn yn penderfynu y dylai'r achos fynd yn ei flaen a bod angen dibynnu ar dystiolaeth y dioddefwr i brofi'r achos, mae'n rhaid i ni benderfynu:

- a ddylen ni wneud cais i'r llys am gael defnyddio datganiad y dioddefwr yn dystiolaeth heb i'r dioddefwr orfod rhoi tystiolaeth yn y llys;
- a allwn ni barhau â'r erlyniad gan helpu'r dioddefwr i fynychu'r llys trwy ddefnyddio mesurau arbennig; neu
- a ddylem ni orfodi'r dioddefwr i roi tystiolaeth yn bersonol yn y llys.

9.4 Mae gwybodaeth gefndir yn hanfodol i helpu erlynydd wneud y penderfyniad cywir ynghylch sut i fwrw ymlaen ag achos lle mae'r dioddefwr wedi tynnu ei gefnogaeth i'r erlyniad yn ôl. Lle bo'n briodol, byddwn yn gofyn am gymorth a chyngor gan swyddog cyswllt LGBT yr heddlu a/neu Gydgysylltydd Trosedd Homoffobig y CPS.

9.5 Ymhlith y ffactorau y dylid eu hystyried y mae:

- gallu'r dioddefwr i dystiolaethu;
- a oes perthynas yn parhau rhwng y dioddefwr a'r diffynnydd;
- lle bo perthynas sy'n parhau, cefndir y berthynas ac unrhyw enghreifftiau o gam-drin o'r blaen;
- y tebygolrwydd y bydd y diffynnydd yn troseddu eto;
- effaith bwrw ymlaen â'r achos, neu beidio, ar y dioddefwr; ac
- a wnaed unrhyw fygythiadau ers y digwyddiad.

9.6 Gall fod yna rai adegau pan fydd angen gorfodi dioddefwr neu dyst i roi tystiolaeth oherwydd difrifoldeb y trosedd neu'r ffordd y cafodd ei gyflawni, er enghraifft lle defnyddiwyd arf neu lle bu criw o bobl yn ymosod. Yn yr achosion hyn, rhaid i ni gydbwyso amharodrwydd y dioddefwr neu'r tyst i roi tystiolaeth yn erbyn budd y cyhoedd o ran sicrhau bod y rhai a gyhuddir o gyflawni troseddau mor ddifrifol yn cael eu dwyn gerbron llys.

9.7 Mewn achosion lle mae angen galw dioddefwyr i roi tystiolaeth yn groes i'w hewyllys, ni fydd erlynwyr yn gwneud penderfyniad o'r fath hyd nes eu bod wedi ymgynghori â'r heddlu ac, o bosib, ag eraill sydd â diddordeb cyfreithlon. Bydd unrhyw benderfyniad i gymell dioddefwr i roi tystiolaeth yn rhoi ystyriaeth hefyd i hawliau'r unigolyn dan Ddeddf Iawnderau Dynol 1998.

9.8 Mae'r gyfraith yn caniatáu i ni ddefnyddio datganiad y dioddefwr yn y llys heb alw'r dioddefwr i roi tystiolaeth lafar ond mewn amgylchiadau cyfyngedig iawn yn unig. Mater i'r llys yw penderfynu a fydd yn caniatáu hyn ai peidio ac ni fydd yn gwneud hynny oni bai y byddai hynny er budd cyfiawnder. Os mai'r dioddefwr yw'r unig dyst i'r trosedd, gall fod yn anodd bodloni'r llys y gweinyddir cyfiawnder pan na all yr amddiffyniad groesholi'r tyst hwnnw.

Cefnogaeth i Ddioddefwyr a Thystion

10.1 Rydym yn cydnabod fod deddfwriaeth, Codau Ymarfer a pholisïau sy'n rhoi arweiniad ynghylch sut i drin a gofalu am ddioddefwyr a thystion yn ystod proses yn llys yn cyfeirio'n amrywiol at ddioddefwyr yn unig, at dystion yn unig neu at ddioddefwyr a thystion. Yn y rhan hon o'n Polisi rydym yn arddel y disgrifiad a ddefnyddir ym mhob un o'r dogfennau ffynhonnell er mwyn parhau'n gyson. Os, er enghraifft, y

byddwn yn cyfeirio at ddioddefwyr, mae'r gwasanaeth neu'r cymorth a gynigir ar gael i ddioddefwyr yn unig. Serch hynny, dylid cymryd fod cyfeiriadau at dystion hefyd yn cynnwys dioddefwyr sy'n gorfod mynychu llys i roi tystiolaeth.

10.2 Mae'r CPS yn llwyr ymroddedig i gymryd yr holl gamau ymarferol i helpu dioddefwyr a thystion drwy'r profiad o fod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol, sef profiad anodd yn aml. Mae'r CPS yn cydnabod y bu pryderon, yn y gorffennol, am y modd y bu'r system cyfiawnder troseddol yn ymdrin â throseddau yn ymwneud â homoffobia a thrawsffobia. Cydnabyddwn hefyd y gallai aelodau o gymunedau LGBT fod yn gyndyn o roi gwybod am ddigwyddiadau oherwydd ofn, diffyg ymddiriedaeth neu oherwydd eu profiad blaenorol o'r rhai sy'n ymwneud â'r system honno.

10.3 Mae mentrau megis Dim Tyst, Dim Cyfiawnder, mesurau arbennig, cyfarfodydd rhwng y CPS a thystion agored i newid a rhai sy'n cael eu dychryn, a chyfyngiadau adrodd, oll wedi'u cynllunio i gynyddu hyder dioddefwyr a thystion yn y system cyfiawnder troseddol. Gall fod cefnogaeth ar gael hefyd, o gam cynnar iawn yn y broses, gan yr heddlu, grwpiau cymunedol, Gwasanaethau Tai ac asiantaethau cefnogi eraill, a gall hynny barhau gydol yr erlyniad.

Addewid yr Erlynwyr

10.4 Mae hwn yn Addewid 10 pwynt sy'n disgrifio lefel y gwasanaeth y gall dioddefwyr ddisgwyl ei dderbyn gan erlynwyr. Dylai Addewid yr Erlynwyr sicrhau bod sylw yn cael ei roi i anghenion penodol dioddefwyr LGBT, eu bod yn derbyn cymorth yn y llys i'w hatgoffa o'u datganiad ysgrifenedig neu ar fideo a'u bod yn cael eu gwarchod rhag ymosodiadau diwarant neu amherthnasol ar eu cymeriad.

10.5 Fe gewch gopi o Addewid yr Erlynwyr ar ein gwefan http://www.cps.gov.uk/publications/prosecution/prosecutor_pledge.html

Y Côd Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Troseddau

10.6 Mae'r Côd hwn yn nodi rhwymedigaethau'r CPS tuag at ddioddefwyr. Enghraifft o un o'r rhwymedigaethau yw sefyllfa petai erlynydd yn penderfynu nad oes digon o dystiolaeth i fwrw ymlaen ag achos (yn dilyn adroddiad tystiolaethol llawn, ysgrifenedig gan yr heddlu), neu petai'r erlynydd yn penderfynu newid rhyw gyhuddiad yn sylfaenol neu ollwng cyhuddiad. Mewn amgylchiadau o'r fath, rhaid i'r erlynydd hysbysu'r dioddefwr. Os yw'r dioddefwr yn agored i niwed neu ddychryn, rhaid i'r erlynydd roi gwybod iddynt o fewn un diwrnod gwaith i wneud y penderfyniad, ac o fewn pum niwrnod gwaith i ddioddefwyr eraill. Ar gyfer troseddau homoffobig neu drawsffobig, bydd yr erlynydd hefyd yn cynnig cwrdd â'r dioddefwr i esbonio'r penderfyniad. Lle bo erlynydd wedi penderfynu peidio â chyhuddo yn ystod ymgynghoriad wyneb yn wyneb â swyddog o'r heddlu (hynny yw, heb adroddiad tystiolaethol llawn, ysgrifenedig), rhaid i swyddog yr heddlu hysbysu'r dioddefwr.

10.7 Mae copïau o'r Côd Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Troseddau i'w cael gan Gangen Cyfathrebu y CPS yn Rose Court, 2 Southwark Bridge, Llundain SE1 9HS neu o'n gwefan: http://www.cps.gov.uk/victims_witnesses/victims_code.pdf

Triniaeth yn y Llys

10.8 Mae Llyfr y Fainc ar Driniaeth Gyfartal yn cynnwys canllawiau clir ar gyfer ynadon a barnwyr ynghylch iaith ac ymddygiad priodol, fel y gallant chwarae eu rhan a sicrhau y cynhelir lefel o barch priodol tuag at ddioddefwyr. Fe geir y ddogfen yn: http://www.jsboard.co.uk/etac/etbb/index.htm

Datganiadau Personol gan Ddioddefwyr

10.9 Datganiad Personol gan Ddioddefwr yw datganiad a wneir gan rywun a ddioddefodd yn sgil trosedd, sy'n esbonio'r effaith a gafodd y trosedd arno ef neu arni hi. Yn y datganiad gall y dioddefwyr ddisgrifio sut yr effeithiodd y trosedd arnynt. Gallant siarad am eu dymuniadau neu eu hanghenion yn ystod yr achos ac unrhyw bryderon a allai fod ganddynt o ganlyniad i'r trosedd, er enghraifft, ynghylch diogelwch, dychryn neu fechnïaeth. Gallant sôn am gymorth (neu ddiffyg cymorth) ar gyfer yr erlyniad a cheisiadau am gymorth gan unrhyw rai o'r asiantaethau cefnogi. Fel hyn gall y llys ddod i well dealltwriaeth nid yn unig am y trosedd ond hefyd am gyd-destun y trosedd. Rhywbeth dewisol yw'r datganiad, a dylid gofyn i'r dioddefwr a yw'n dymuno gwneud datganiad o'r fath ai peidio neu a oes arno ef/hi angen help i wneud datganiad gan weithiwr cefnogi neu aelod o'r teulu. Gellir gwneud y datganiad hwn unrhyw bryd ac mae'n bosib gwneud mwy nag un datganiad.

10.10 Dylai datganiad y dioddefwr ddangos yn glir a gawsant wybod am y ffaith y gallant wneud Datganiad Personol gan Ddioddefwr ai peidio. Lle nad yw hynny'n glir, bydd yr erlynydd yn gofyn i swyddog yr heddlu fynd yn ôl at y dioddefwr ac egluro y gallant wneud Datganiad Personol gan Ddioddefwr os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Mae yna daflen ar gael sy'n esbonio beth yw Datganiadau Personol gan Ddioddefwyr a sut y gellir eu defnyddio. Fe geir copïau o'r daflen yn:
http://www.homeoffice.gov.uk/documents/victimstate.pdf

10.11 Gall erlynwyr ddefnyddio Datganiadau Personol gan Ddioddefwyr i'w helpu i wneud penderfyniadau ynghylch achosion, er enghraifft, wrth benderfynu a ddylent ofyn i'r llys osod amodau pan fydd y diffynnydd ar fechnïaeth.

Unedau Gofal Tystion

10.12 Menter ar y cyd rhwng yr heddlu a'r CPS yw Dim Tyst, Dim Cyfiawnder, gyda'r nod o ymateb i anghenion unigol dioddefwyr a thystion trwy sefydlu Unedau Gofal Tystion arbennig.

10.13 Mae gennym Unedau Gofal Tystion ym mhob un o 42 Rhanbarth y CPS a'r rhain yn cael eu rhedeg ar y cyd gan y CPS a'r heddlu. Mae Swyddogion Gofal Tystion yn cynnig un man cyswllt canolog ac yn rhoi cymorth wedi'i deilwra ar gyfer pob dioddefwr a thyst unigol er mwyn sicrhau eu bod yn gallu rhoi eu tystiolaeth orau. Mae'r cymorth neilltuol hwn yn seiliedig ar asesiad anghenion a ddylai arwain at nodi unrhyw gymorth arbenigol y gallai fod ei angen ar ddioddefwr neu dyst.

10.14 Bydd Swyddogion Gofal Tystion neu asiantaethau cefnogi arbenigol yn rheoli gofal dioddefwyr a thystion o'r adeg y cyhuddir y diffynnydd hyd at ddiwedd yr achos.

Helpu tystion roi eu tystiolaeth orau

10.15 Mae'n bosib na fydd rhai pobl LGBT, a thystion posib eraill nad ydynt yn LGBT, yn teimlo ar y dechrau y gallant roi tystiolaeth yn y llys ynghylch trosedd homoffobig neu drawsffobig oherwydd eu bod yn credu y byddent yn eu gosod eu hunain mewn anhawster neu berygl petaent yn gwneud hynny. Mae yna nifer o ffyrdd y gall y llysoedd helpu: mewn rhai amgylchiadau, gall y llys gytuno i ganiatáu i dyst roi tystiolaeth gyda chymorth "mesurau arbennig". Mae yna nifer o fathau o fesurau arbennig. Bwriad pob un yw ei gwneud hi'n bosib, neu'n haws, i dystion roi tystiolaeth bwysig na fyddai'n bosib iddynt ei rhoi fel arall, neu na fyddai'n ddiogel iddynt ei rhoi, yn eu barn nhw.

10.16 Yn ychwanegol, mae yna ffyrdd y gall y llys gynorthwyo tyst i roi tystiolaeth lle bo'r tyst yn pryderu y bydd y wasg neu rywun arall yn gallu eu hadnabod petaent yn rhoi tystiolaeth. Cydnabyddwn fod y materion hyn yn gallu chwarae rhan enfawr ym mhenderfyniad tyst a fydd yn rhoi tystiolaeth ai peidio ac yn adran ddilynol y polisi hwn rydym yn nodi'r ffordd y gall y llysoedd ystyried ceisiadau am gyfyngiadau gohebu ac aros yn ddienw.

Cyfyngiadau gohebu (Deddf Cyfiawnder i'r Ifanc a Thystiolaeth Droseddol 1999, adran 46)

10.17 Mae hawl gan ddioddefwyr troseddau rhywiol difrifol i beidio â chael eu henwi neu eu datgelu fel arall yn y cyfryngau, fel mater o gyfraith.

10.18 Mewn rhai achosion eraill, nad ydynt yn ymwneud â throseddau rhywiol, mae'r gyfraith yn caniatáu i'r CPS wneud cais am orchymyn sy'n rhwystro'r wasg rhag cyhoeddi adroddiadau sy'n cynnwys rhai manylion ynghylch y tystion a allai arwain at eu hadnabod. Gellir gwneud cais am y cyfarwyddyd hwn ar ddechrau erlyniad ac, os y'i gwneir, mae'n rhwystro unrhyw ran o'r cyfryngau rhag cyhoeddi unrhyw wybodaeth a allai ddatgelu pwy yw'r tyst. Mae cyfarwyddyd o'r fath yn gymwys nid yn unig am hyd y trafodion yn y llys ond am oes gyfan y tyst. Gall cyfarwyddyd adran 46 roi gwarchodaeth bwysig iawn i bobl sy'n pryderu ynghylch cael eu henwi yn y cyfryngau oherwydd iddynt roi tystiolaeth mewn achos sy'n cynnwys trosedd homoffobig neu drawsffobig.

10.19 Rhaid i'r llys gadw at drefn arbennig wrth ystyried cais o'r fath a rhaid iddo benderfynu a yw tyst yn gymwys ac, fel gyda'r mesurau arbennig, a yw hi'n debygol y byddai cyfyngiadau gohebu yn gwella ansawdd y dystiolaeth gan y tyst. Canolbwynt yr holl fesurau hyn yw sicrhau bod tystion agored i niwed a thystion sy'n cael eu dychryn yn gallu rhoi eu tystiolaeth orau yn y llys.

10.20 Mae'n gymwys ystyried a ddylai tyst gael y warchodaeth hon os yw'r llys yn fodlon y byddai cael eu hadnabod gan aelodau'r cyhoedd fel tyst yn yr achos yn cael effaith andwyol ar eu tystiolaeth. Wrth benderfynu a yw tyst yn gymwys, rhaid i'r llys roi ystyriaeth neilltuol i:

- natur amgylchiadau honedig y trosedd y mae'r achos yn ymwneud ag ef;
- oed y tyst;
- os yw'n berthnasol, cefndir cymdeithasol a diwylliannol a tharddiad ethnig y tyst, yr amgylchiadau domestig a chyflogaeth, ac unrhyw gredoau crefyddol neu safbwyntiau gwleidyddol; ac
- unrhyw ymddygiad tuag at y tyst ar ran y diffynnydd, aelodau ei deulu ef/hi neu bobl gysylltiol, neu unrhyw berson arall sy'n debygol o fod yn ddiffynnydd neu'n dyst yn yr achos.

10.21 Unwaith y bydd y ffactorau hyn wedi'u pennu, bydd y llys yn ystyried:

- a fyddai hi er budd cyfiawnder rhoi cyfarwyddyd ynghylch gohebu; a
- budd y cyhoedd o ran osgoi cyfyngiad sylweddol ac o bosib afresymol ar baratoi adroddiadau am yr achos.

10.22 Mae gan yr amddiffyniad a/neu y cyfryngau hawl i wrthwynebu unrhyw gais a wneir gennym. Lle rhoddir cyfarwyddyd ynghylch gohebu, effaith hyn yw na fydd hi'n bosib i unrhyw fater yn ymwneud â'r tyst gael ei gynnwys mewn unrhyw gyhoeddiad yn ystod ei oes ef neu hi os yw'n debygol o olygu y gellir ei adnabod ef neu hi fel tyst yn yr achos.

Sicrhau y bydd dioddefwyr neu dystion yn aros yn ddienw

10.23 Mae'r CPS yn ymwybodol bod mater aros yn ddienw o bryder neilltuol i nifer o ddioddefwyr a thystion i droseddau homoffobig a thrawsffobig. Ar y cyfan, pery'n egwyddor sylfaenol yn y system cyfiawnder troseddol yng Nghymru a Lloegr bod hawl gan y rhai a gyhuddir o droseddau i wybod enw'r sawl sy'n eu cyhuddo. Cynhelir y rhan fwyaf o achosion troseddol yn gyhoeddus; felly, mae'n anochel fod gwybodaeth o'r fath yn dod i sylw'r cyhoedd maes o law.

10.24 Serch hynny, mae gan y llys rym i reoli ei drafodion ac mae hyn yn cynnwys caniatáu i dystion beidio â rhoi eu henwau mewn llys agored. Fe fydd hyn yn digwydd weithiau mewn achosion blacmel: ond prin yw'r adegau pryd y caniateir hyn. Un o'r pethau y bydd y llys yn ei ystyried yw a fyddai enwi tyst unigol yn ei gwneud hi'n fwy anodd cael tystiolaeth gan dystion eraill yn y dyfodol.

10.25 Er y byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i helpu tystion yn y llys, mae'n annhebygol y bydd llys yn caniatáu i ddioddefwr LGBT, neu dyst LGBT, mewn trosedd i beidio â datelu eu henw yn y llys.

10.26 Fodd bynnag, oni bai fod ei angen er dibenion tystiolaethol, er enghraifft oherwydd mai dyna lle digwyddodd trosedd honedig, ni ddylid datgelu cyfeiriad tyst yn y llys agored na'i ddatgelu i'r diffynnydd.

10.27 Dan Ddeddf Cydnabod Rhyw 2004 (GRA) gall person traws wneud cais am gydnabyddiaeth gyfreithiol i'r rhyw a ddewiswyd (a gaffaelwyd) ganddynt ar ffurf Tystysgrif Cydnabod Rhyw (GRC). Dan y GRA mae'n drosedd datgelu gwybodaeth a ddiogelir (yn ymwneud â chais rhywun am GRC neu'r ffaith fod ganddynt GRC), os cafwyd y wybodaeth hon mewn rhinwedd swyddogol, er enghraifft, fel aelod o'r gwasanaeth sifil, fel cwnstabl, neu weithiwr i gorff

cyhoeddus. Mae yna eithriadau penodol o ran datgelu, fodd bynnag, er enghraifft: pan fo'r datgeliad er mwyn rhoi cychwyn ar achos llys; lle bo'r datgeliad yn unol â gorchymyn gan lys; neu lle bydd ar gyfer atal neu ymchwilio i drosedd. Ar adegau, mae'n bosib y bydd angen sôn yn y llys am y ffaith fod person yn berson traws. Fodd bynnag, yn ôl yr arfer a sefydlwyd yn y llysoedd, lle nad yw'n hanfodol datgelu rhyw enedigol y person, dylid ei hepgor: mewn achosion o'r fath, dylai fod yn bosib derbyn hunaniaeth ymddangosiadol y person ar gyfer bron iawn holl ddibenion y llys.

Mesurau arbennig

10.28 Cafodd mesurau arbennig eraill eu cyflwyno gan Ddeddf Cyfiawnder i'r Ifanc a Thystiolaeth Droseddol 1999 ac maent ar gael yn Llysoedd y Goron a'r llysoedd ynadon. Maent ar gael i gynorthwyo'r tystion canlynol:

- plant dan 17 oed;
- oedolion (17 a throsodd) y gellid eu hystyried yn agored i niwed oherwydd anallu, megis anhwylder corfforol neu feddyliol[4]; neu anabledd dysgu; a
- thystion lle mae'n debygol y bydd effaith ar eu tystiolaeth oherwydd eu bod yn cael eu dychryn (er enghraifft yn ofnus neu'n bryderus iawn ynghylch rhoi tystiolaeth).

10.29 Mae mesurau arbennig yn cynnwys, ymysg pethau eraill:

- chwarae fideo i'r llys i ddangos recordiad o ddatganiad y dioddefwr neu'r tyst (wedi'i gymryd cynt gan yr heddlu yn ystod yr ymchwiliad);
- caniatáu defnyddio sgriniau yn ystafell y llys er mwyn rhwystro'r dioddefwr neu dystion eraill rhag gweld y diffynnydd;

[4]Mae hyn yn cynnwys rhywun sy'n byw gyda chyflwr arbennig a all eu hatal rhag mynd ar ôl erlyniad os byddai'r ffaith honno'n dod yn hysbys yn eang.

- rhoi tystiolaeth draw oddi wrth ystafell y llys trwy gyfrwng cyswllt teledu byw (ond fe fydd hi'n dal yn bosib i'r diffynnydd eu gweld);
- clirio'r oriel gyhoeddus mewn achosion o droseddau rhyw neu achosion sy'n cynnwys dychryn.

10.30 Wrth benderfynu a ddylid gofyn am fesurau arbennig ai peidio, mae'n rhaid i ni benderfynu "a yw hi'n debygol y bydd ansawdd y dystiolaeth a roddir gan y tyst yn is heb y mesurau arbennig dan sylw yn y cais". Byddwn yn mynd ati'n gadarnhaol i ystyried mesurau arbennig mewn achosion yn ymwneud â dioddefwyr LGBT a allai fanteisio yn eu sgil. Byddwn yn gwneud cais am fesurau arbennig yn yr holl achosion priodol, ond mater i'r barnwr yw penderfynu, ac nid yw pob un o'r mesurau arbennig ar gael ym mhob llys. Wrth i achosion fynd rhagddynt gall amgylchiadau unigol newid felly mae'n bosib y bydd angen addasu unrhyw fesurau arbennig. Lle bynnag y bo modd, gwneir unrhyw geisiadau am fesurau arbennig y diwrnod cyn y treial a bydd y tystion yn cael gwybod penderfyniad y llys gan eu Swyddog Gofal Tystion.

10.31 Dylai'r angen am fesurau arbennig gael ei archwilio'n gyntaf gan yr heddlu, yna gan yr erlynydd. Mae'n bosib y bydd gan y Swyddog Gofal Tystion gyfraniad hefyd yn dilyn asesiad anghenion ond mater i'r llys fydd penderfynu a fyddant yn cael eu caniatáu. Mae'r Côd Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Troseddau, adran 7.8, yn datgan bod yn rhaid i erlynwyr y CPS ystyried ceisiadau am fesurau arbennig ar gyfer dioddefwyr a allent fod yn agored i niwed neu i gael eu dychryn ac a fyddant yn cael eu galw fel tystion i roi tystiolaeth.

10.32 Pan fydd swyddog yr heddlu yn cymryd datganiad gan dyst, bydd yn cynnal asesiad anghenion cychwynnol ar gyfer y person hwnnw, a fydd yn cynnwys gofyn i'r tyst a yw'n barod i fynychu'r llys ac a oes angen mesurau arbennig. Mae hwn yn gyfle i'r tyst ddweud wrth yr heddlu am unrhyw beth sy'n

ei boeni ynghylch gorfod ymddangos yn y llys o bosib ac i drafod y dewisiadau ar gyfer mesurau arbennig. Os bydd yn rhaid i'r tyst fynychu llys yn ddiweddarach i roi tystiolaeth, bydd y Swyddog Gofal Tystion yn cynnal asesiad anghenion manwl. Os cafodd unrhyw beth ei hepgor ynghylch anghenion yr unigolyn, mae hwn yn gyfle arall i'r tyst roi manylion ei bryderon.

Cyfarfod rhwng y CPS a dioddefwyr a thystion agored i niwed neu sy'n cael eu dychryn

10.33 Pan fydd cais am fesurau arbennig yn cael ei ystyried, bydd y CPS, dan rai amgylchiadau, yn cynnal Cyfarfod Mesurau Arbennig Cynnar gyda'r swyddog o'r heddlu sy'n ymchwilio i'r achos neu'r swyddog sydd â gwybodaeth neilltuol am anghenion y tyst. Dan rai amgylchiadau, gellir gofyn i'r tyst a fyddai ef neu hi yn hoffi cwrdd â'r erlynydd. Pwrpas y cyfarfod yw rhoi sicrwydd i'r tystion y rhoddir ystyriaeth i'w hanghenion a thrwy hynny helpu i fagu ymddiriedaeth a hyder. Nid oes raid i'r tyst fynychu'r cyfarfod hwnnw ar eu pen eu hunain. Gallant ddod â phartner, perthynas, ffrind neu rywun arall i'w cefnogi. Er mwyn hwyluso cyfathrebu gyda'r dioddefwr, efallai y bydd hi'n briodol trefnu bod cyfieithydd neu rywun tebyg yn mynychu'r cyfarfod. Lle bynnag y bo modd, bydd erlynydd y CPS yn sicrhau bod yr adfocad a fydd yn cynnal y treial yn mynychu'r cyfarfod rhwng erlynydd y CPS a'r tyst. Os bydd erlynydd y CPS yn cwrdd â'r tystion, byddant yn holi i weld a gafodd y tystion gynnig ymweliad i ymgyfarwyddo â'r llys.

10.34 Mae rhagor o wybodaeth ynghylch cyfarfodydd â thystion agored i niwed neu dystion sy'n cael eu dychryn yn y daflen "Tystion, Eich cyfarfod gydag Erlynydd y CPS". Mae'r daflen ar gael gan Gangen Cyfathrebu y CPS, Rose Court, 2 Southwark Bridge, Llundain SE1 9HS neu o'n gwefan http://www.cps.gov.uk/publications/prosecution/witnesseng.html

Dedfrydu

11.1 Mae tystiolaeth o elfen waethygol ar sail tueddfryd rhywiol (neu dueddfryd rhywiol tybiedig) y dioddefwr yn gwneud achos yn un mwy difrifol ac mae'n ddyletswydd ar y llys, dan adran 146 Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003, i roi ystyriaeth i hyn wrth ddedfrydu'r sawl a gyhuddir ac i wneud yn eglur ei fod wedi gwneud hynny. Byddwn yn gwneud yn siwr fod yr holl wybodaeth angenrheidiol gan y llys er mwyn iddo allu cyflawni'r ddyletswydd hon.

11.2 Pan fydd diffynnydd yn pledio'n euog neu'r llys yn ei gael yn euog, rhaid i'r llys benderfynu pa ddedfryd i'w rhoi a gall ddewis o blith amrediad eang o gosbau. Gall y cosbau fod ar ffurf gorchmynion ailsefydlu, cosbau cymunedol, dirwyon, cosbau "rhwymol" neu gadw yn y ddalfa.

11.3 Cyn cael ei ddedfrydu, mae gan ddiffynnydd hawl i wneud ple i liniaru. Byddwn yn herio unrhyw liniaru gan yr amddiffyniad a fydd yn ymosod yn annheg ar gymeriad y dioddefwr.[5]

11.4 Os bydd y diffynnydd yn pledio'n euog neu'r llys yn ei gael yn euog o drosedd ond yn anghytuno â'r erlyniad bod elfen waethygol ar sail tueddfryd rhywiol (neu dueddfryd rhywiol tybiedig) y dioddefwr yn perthyn i'r trosedd, bydd yn rhaid i'r barnwr neu'r ynadon benderfynu a brofwyd y nodwedd waethygol ai peidio. Rhaid i'r erlyniad alw tystion a all roi tystiolaeth ynghylch yr elyniaeth a bydd yr amddiffyniad yn gallu eu croesholi cyn i'r llys wneud penderfyniad. Enw'r broses hon yw "gwrandawiad Newton". Ar ddiwedd y gwrandawiad rhaid i'r llys gyhoeddi a yw'n fodlon, o glywed y dystiolaeth, bod y trosedd yn un gwaethygol oherwydd

[5]Addewid yr Erlynwyr: "Diogelu dioddefwyr rhag ymosodiadau diwarant neu amherthnasol ar eu cymeriad a gall ofyn i'r llys ymyrryd pan ystyrir y croesholi yn amhriodol neu'n ormesol".

gelyniaeth at dueddfryd rhywiol (neu dueddfryd rhywiol tybiedig) y dioddefwr. Os felly, rhaid i'r llys ymdrin â'r trosedd mewn modd mwy difrifol wrth benderfynu ar ddedfryd, yn unol ag adran 146 Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003. Os na fodlonir y llys o hynny, ni fydd adran 146 yn berthnasol.

11.5 Byddwn yn rhoi gwybodaeth i'r llys i'w helpu i benderfynu a fydd yn gwneud unrhyw orchmynion y mae ganddo'r grym i'w gwneud yn ychwanegol at y brif ddedfryd[6]. Mae hyn yn cynnwys gwneud gorchmynion mewn achosion priodol am iawndal am golled, niwed neu ddifrod.[7]

11.6 Ym mhob achos, mater i'r ynadon neu'r barnwr yn unig yw penderfynu ar y ddedfryd. Ar gyfer nifer gyfyngedig o droseddau (a phan ddedfrydir y diffynnydd yn Llys y Goron yn unig) y mae gennym hawl i ofyn i'r Twrnai Cyffredinol herio dedfryd, os credwn ei bod yn rhy drugarog. Fe all unrhyw un, gan gynnwys y dioddefwr ei hun neu deulu'r dioddefwr, ddwyn y ddedfryd i sylw'r Twrnai Cyffredinol os byddant yn ei hystyried yn rhy drugarog. Mae yna, fodd bynnag, gyfyngiad amser llym o 28 diwrnod (o'r dyddiad dedfrydu) ar gyfer apêl gan y Twrnai Cyffredinol i'r Llys Apêl.

---

[6]The Code of Practice for Victims of Crime, section 7.12 states that the CPS must answer any questions the victim has about the sentence if the victim is referred to the CPS by the Witness Care Unit (this is if the Witness Care Unit is unable to answer the victim's questions).

[7]Prosecutors' Pledge: "On conviction, apply for appropriate order for compensation, restitution or future protection of the victim".

Cofnodi troseddau casineb

12.1 Mae'n hanfodol bod achosion sy'n cynnwys arddangos gelyniaeth neu sy'n cael eu cymell gan elyniaeth tuag at y dioddefwr oherwydd eu tueddfryd rhywiol neu hunaniaeth o ran rhywedd neu dueddfryd rhywiol tybiedig neu hunaniaeth o ran rhywedd dybiedig yn cael eu hadnabod yn gywir. Byddwn yn cofnodi achosion a nodir yn ddigwyddiadau homoffobig neu drawsffobig gan yr heddlu ac yn monitro ein perfformiad er mwyn sicrhau ein bod yn defnyddio'r ddeddfwriaeth ac yn cymhwyso'r polisi hwn yn gyson. Er mis Ebrill 2005 buom yn monitro perfformiad chwarterol pob un o 42 Rhanbarth y CPS o ran ymdrin ag achosion o drosedd homoffobig a thrawsffobig ac rydym wedi cyhoeddi ein ffigurau perfformiad blynyddol ar ymdrin ag achosion o drosedd homoffobig a thrawsffobig. Byddwn yn parhau i adrodd ynghylch ein perfformiad wrth gymunedau er mwyn meithrin hyder yn y system cyfiawnder troseddol. O 2008-2009 ymlaen, bydd y CPS yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar Drosedd Casineb a fydd yn cynnwys data perfformiad am drosedd homoffobig a thrawsffobig (ynghyd â data perfformiad am droseddau casineb eraill).

12.2 Mae'r Côd Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Troseddau wedi gosod dyletswyddau a rhwymedigaethau newydd ar y CPS. Trwy fonitro troseddau homoffobig a thrawsffobig a monitro canlyniadau troseddau sy'n cynnwys dioddefwyr a thystion LGBT bydd yn ein helpu i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'n rhwymedigaethau a'n bod yn darparu gwasanaeth o ansawdd i holl ddioddefwyr troseddau. Ym mhob Rhanbarth y CPS mae yna Gydgysylltwyr Trosedd Homoffobig a rhan o'u swyddogaeth yw – ymysg pethau eraill – hwyluso gweithredu'r Polisi hwn o fewn eu Rhanbarth; hyrwyddo'r Polisi hwn ymysg partneriaid yn y System Cyfiawnder Troseddol; a bod yn ffynhonnell wybodaeth ac arweiniad yn y Rhanbarth ar gyfer achosion sy'n cynnwys trosedd casineb homoffobig neu drawsffobig.

Casgliad

13.1 Mae'r CPS yn benderfynol o chwarae ei ran yn lleihau troseddau gydag elfen homoffobig neu drawsffobig trwy ddod â throseddwyr gerbron eu gwell, ond mae arnom angen cymorth gan ddioddefwyr a thystion er mwyn gallu gwneud ein gwaith yn dda.

13.2 Rydym eisiau i'r cymunedau LGBT fod â ffydd ynom hefyd. Gobeithiwn y bydd y ddogfen hon yn caniatáu i holl aelodau cymdeithas, ond yn enwedig aelodau'r cymunedau LGBT, fod â gwell dealltwriaeth o'r hyn y mae'r CPS yn ei wneud: pam mae'n gwneud ei waith yn ei ffordd arbennig; a hefyd rhai o'r cyfyngiadau sy'n ein hwynebu.

13.3 Os ydym eisiau adeiladu cymdeithas agored, oddefgar a chynhwysol lle mae'r holl aelodau yn teimlo'n saff a hyderus yn y modd y mae cyfraith droseddol yn gweithio, yna rhaid i ni i gyd ei gwneud hi'n flaenoriaeth atal troseddau sy'n seiliedig ar homoffobia neu drawsffobia a, lle na allwn wneud hynny, i arestio ac erlyn y sawl sy'n cyflawni troseddau o'r fath yn gadarn ac effeithiol.

13.4 Mae'r CPS yn bwriadu adolygu'r datganiad cyhoeddus hwn yn rheolaidd, er mwyn iddo adlewyrchu'r ddeddfwriaeth gyfredol a safbwyntiau cymdeithasol. Felly, rydym yn croesawu sylwadau a fydd yn ein galluogi i wneud hyn.

Rhestr o Dermau a ddefnyddir yn y Datganiad Cyhoeddus

Weithiau gall termau a diffiniadau yn ymwneud â lesbiaid, dynion hoyw, pobl ddeurywiol a phobl draws ymddangos yn ddryslyd ac maent yn newid dros y blynyddoedd. Yn y rhestr hon rydym wedi cynnwys rhai termau sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd a'u hystyron pan gyhoeddwyd y datganiad cyhoeddus hwn yn 2007.

Deuryw
Dyn neu ddynes sy'n teimlo atyniad corfforol, rhywiol a/neu emosiynol at bobl o'r ddwy ryw. *(bisexual)*

Y Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron
Y cyfarwyddyd cyhoeddus sy'n disgrifio sut y bydd Erlynwyr y Goron yn gwneud eu penderfyniadau ynghylch gwaith achosion a'r ffactorau y dylent eu hystyried wrth wneud hynny.

Cottaging
Proses lle bydd dynion fel arfer yn chwilio am ddynion a/neu yn cael rhyw mewn lle cyhoeddus, mewn toiled cyhoeddus fel arfer.

Cruising
Proses lle bydd lesbiaid, dynion hoyw neu bobl ddeurywiol yn chwilio am ryw gyda phobl eraill, mewn parciau yn aml.

Hoyw
Dyn neu ddynes sy'n teimlo atyniad corfforol, rhywiol a/neu emosiynol at bobl o'r un rhyw. (Mae'n well gan rai dynion hoyw gael eu galw'n hoyw (*gay*) yn hytrach na *queer* neu wrywgydiwr (*homosexual*).) (*gay*)

Hunaniaeth o ran Rhywedd
Synnwyr person ohono'i hun, neu ohoni'i hun, fel rhywun gwrywaidd neu fenywaidd, gwrywol neu fenywol. *(gender identity)*

Heterorywiol
Dyn neu fenyw sy'n teimlo atyniad corfforol, rhywiol a/neu emosiynol at bobl o'r rhyw arall. (*heterosexual*)

Homoffobig
Ofn neu atgasedd a gyfeirir at bobl lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol, neu ofn neu atgasedd a gyfeirir at eu ffordd o fyw, eu diwylliant neu eu nodweddion canfyddedig, boed unrhyw berson lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol yn meddu ar y bywyd neu'r nodweddion hynny ai peidio. Nid oes yn rhaid i'r atgasedd fod cyn gryfed â chasineb. Mae'n ddigon fod pobl yn gwneud rhywbeth neu'n ymatal rhag gwneud rhywbeth oherwydd nad ydynt yn hoffi pobl lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol. (*homoffobig*)

Cyfunrywiol
Dyn neu fenyw sy'n teimlo atyniad corfforol, rhywiol a/neu emosiynol at bobl o'r un rhyw. (*homosexual*)

Lesbiad
Menyw sy'n teimlo atyniad corfforol, rhywiol a/neu emosiynol at fenywod. (Mae'n well gan rai lesbiaid gael eu galw'n lesbiaidd yn hytrach na hoyw, *queer* neu gyfunrywiol.) (*lesbian*)

Out
Y term a ddefnyddir gan lesbiaid, dynion hoyw, pobl ddeurywiol a phobl draws i ddisgrifio eu profiad o ganfod yr hunan, derbyn yr hunan, bod yn agored a bod yn onest am eu tueddfryd rhywiol neu eu hunaniaeth o ran rhywedd a'u penderfyniad i rannu hyn gydag eraill pryd bynnag a sut bynnag y byddant yn dewis gwneud hynny.

Outed
Canlyniad rhywun yn rhoi gwybodaeth fod person yn LGB neu T heb ganiatâd y person hwnnw neu honno.

Pobl sy'n cael rhyw gyda pherson o'r un rhyw
Mae yna lawer o ddynion a menywod a fydd weithiau'n cael rhyw

gyda phobl o'r un rhyw â nhw ond nad ydynt yn ystyried bod y gweithgaredd hwnnw yn golygu eu bod yn LG neu B. Mewn geiriau eraill, nid yw'r gweithgaredd yn diffinio eu hunaniaeth. Gall hyn gynnwys rhai dynion a menywod priod; rhai pobl sydd o'r cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig; a rhai pobl sy'n byw mewn cymunedau ffydd.

Troseddau rhywiol difrifol
Y troseddau a ddisgrifir yn adran 2 Deddf Troseddau Rhywiol (Newidiad) 1992 pryd y rhwystrir y cyfryngau rhag enwi'r dioddefwr neu ddatgelu pwy ydyw mewn ffordd arall.

Tueddfryd rhywiol
Term a ddefnyddir i ddisgrifio atyniad emosiynol a/neu gorfforol person at rywun arall. *(sexual orientation)*

Pobl draws
Pobl draws yw'r rhai a gafodd un rhyw adeg eu geni ond, o ran hunaniaeth, sy'n uniaethu yn rhywle arall ar y sbectrwm rhywedd am ran o'r amser neu'r holl amser. Fe fydd rhai pobl draws yn cymryd moddion neu'n cael llawdriniaeth(au) i newid eu cyrff fel y byddant yn ffitio gyda'u hunaniaeth bersonol a'u synnwyr o'r hunan. Fodd bynnag, ni ddylid defnyddio llawdriniaeth yn farciwr sy'n dangos bod rhywun yn berson traws.
Mae traws yn derm cwmpasog sy'n cynnwys pobl drawsrywiol, trawswisgwyr (*cross dressers*) a pobl drawsryw, ymysg eraill. Yn ymarferol, mae amrywiaeth eang iawn o bobl yn dod dan y term ymbarél hwn. *(trans people)*

Trawsffobig
Ofn neu atgasedd a gyfeirir at bobl draws, neu ofn neu atgasedd a gyfeirir at eu ffordd o fyw, eu diwylliant neu eu nodweddion canfyddedig, boed unrhyw berson traws penodol yn meddu ar y bywyd neu'r nodweddion hynny ai peidio. Nid oes yn rhaid i'r atgasedd fod cyn gryfed â chasineb. Mae'n ddigon fod pobl yn gwneud rhywbeth neu'n ymatal rhag gwneud rhywbeth oherwydd nad ydynt yn hoffi pobl draws. *(transphobic)*

Mae'r llyfryn hwn yn ddogfen gyhoeddus. Y mae ar gael ar wefan y CPS:

www.cps.gov.uk <http://www.cps.gov.uk/>

Cynhyrchwyd gan yr Uned Cydraddoldeb ac
Amrywiaeth a'r Gyfarwyddiaeth Polisi
Awst 2007

Mae rhagor o gopïau ar gael gan:
Cangen Cyfathrebu y CPS
Rose Court
2 Southwark Bridge
Llundain SE1 9HS
Ffôn: 020 335 70913
E-bost: publicity.branch@cps.gsi.gov.uk

Mae cyfieithiadau i iethoedd eraill a chopïau sain ar gael drwy wneud cais i Gangen Cyfathrebu y CPS

Argraffwyd gan Blackburns of Bolton;